




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhoi **rhan 2** o

Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
ar waith



Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc

Mae gennym ni wasanaethau cymdeithasol da yng Nghymru ond mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud nhw'n well fyth.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu teuluoedd ac unigolion pan mae angen help arnyn nhw.

Maen nhw hefyd yn helpu plant a phobl ifanc:

- pan maen nhw mewn perygl o gael eu niweidio;
- pan mae ganddyn nhw broblemau teuluol;
- pan mae ganddyn nhw anabledd;
- pan maen nhw mewn helynt â'r gyfraith neu'r heddlu;
- pan maen nhw'n derbyn gofal; neu
- pan nad yw eu teuluoedd yn gofalu amdany'n nhw fel y dylen nhw wneud.

Ffordd newydd o wneud pethau

Yn 2014, fe wnaethom ni ddeddf newydd o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**.

(Mae Deddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith.)

Mae'r Ddeddf newydd yma'n manylu ar bopeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cyngorau) eu gwneud i helpu pobl yn eu hardal nhw.

Mae yna 11 rhan i'r Ddeddf, yn rhoi sylw i bopeth y mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu gwneud, ac mae'r llyfryn yma'n edrych ar ran 2.

I ddarllen y Ddeddf newydd gyfan
- cliciwch yma:



Paratoi

Bydd pawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn newid eu ffordd o weithio a byddan nhw'n defnyddio'r Ddeddf newydd yma o fis Ebrill 2016 ymlaen.

Felly rydyn ni wrthi'n llunio fframwaith (camau) newydd fel bod pawb yn deall beth y mae'r Ddeddf newydd yn ei olygu a beth y mae angen iddyn nhw ei wneud.

Bydd y fframwaith newydd yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei hun
- Rheolau (rheoliadau) newydd y mae modd eu gwneud oherwydd y Ddeddf
- Codau Ymarfer (canllawiau) i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol eu dilyn.

Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthy ch chi am y Cod Ymarfer a rhai o'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 2 y Ddeddf.

Rydyn ni wedi holi rhai pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn barod ynglŷn â'r rhain, ond rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi.

Wedyn, byddwn ni'n anfon y codau a'r rheoliadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru iddyn nhw gytuno arnyn nhw mewn pryd i bawb ddechrau gweithio'n unol â nhw o fis Ebrill 2016 ymlaen.



Beth y mae Rhan 2 yn rhoi sylw iddo?

Mae yna bedwar maes yr hoffem ni edrych arnyn nhw yn y rhan yma o'r Ddeddf:

Llesiant

- gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo'n dda ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Asesiadau o'r boblogaeth

- gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth a'r gofal sydd eu hangen arnyn nhw.

Mentrau cymdeithasol

- gwneud yn siŵr bod help a chefnogaeth ar gael yn y gymuned, a bod hynny o fudd i'r bobl ac i'r gymuned.

Gwybodaeth

- gwneud systemau sy'n gweithio'n well.

Llesiant — gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo'n dda ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Rydyn ni eisiau i bawb gael cymorth a gofal o'r un ansawdd uchel, ble bynnag y maen nhw'n byw yng Nghymru. Felly, **bydd Gweinidogion Cymru'n ysgrifennu datganiad ynglŷn â'r canlyniadau a sut i'w cyflawni yn y Cod Ymarfer.**

Bydd y Cod Ymarfer yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol (cynghorau) beth y mae angen iddyn nhw ei wneud i ateb anghenion pobl yn eu hardal nhw.

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ysgrifennu eu datganiadau ynglŷn â'r canlyniadau cyn mis Ebrill 2016.



Asesiadau o'r boblogaeth — gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth a'r gofal sydd eu hangen arnyn nhw.

Mae angen i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol wybod am anghenion gofal a chymorth y bobl sy'n byw yn eu hardaloedd nhw. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ofalwyr — pobl sy'n gofalu am bobl eraill. **Asesiad o'r boblogaeth** yw ein henw ar hyn.

Mae'r rheolau newydd yn manylu ar:

- sut i wneud asesiadau o'r boblogaeth, a phryd i'w gwneud;
- yr angen i roi adroddiadau ar yr asesiadau o'r boblogaeth ar wefannau awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, a'u hanfon at Weinidogion Cymru; ac
- yr angen i gynnwys gofalwyr.

Mae'r Cod Ymarfer yn manylu ar sut dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gydweithio.



Mentrau cymdeithasol — gwneud yn siŵr bod help a chefnogaeth ar gael yn y gymuned, a bod hynny o fudd i'r bobl ac i'r gymuned.

Busnesau yw mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol. Nid ydyn nhw fel busnesau preifat. Mae'r bobl sy'n berchen ar fusnesau preifat yn gallu cadw'r elw iddyn nhw eu hunain. Mae'r bobl sy'n rhedeg mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol yn defnyddio'r elw mewn ffordd wahanol – er enghraifft, i helpu mwy o bobl i gael gwasanaeth. Diben yr adran yma yw gwneud yn siŵr bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw'n gallu chwarae rhan mewn cynllunio'u gwasanaethau ac mewn cyflenwi eu gwasanaethau.

Weithiau, mae'n anodd i awdurdodau lleol wybod ai menter gymdeithasol, menter gydweithredol, busnes neu elusen yw grŵp sy'n cynnig gwasanaethau. Mae'n gallu bod yn anodd hefyd gweld a ydyn nhw'n gwneud gwahaniaeth go iawn i gymunedau, ac a oes eu hangen.

Bydd y rheolau newydd yma'n manylu ar sut i gael gwybod pwy yw pwy gan wneud pethau'n haws.

Mae gan y Cod Ymarfer gamau i'w dilyn fel bod pob awdurdod lleol yn gwneud pethau yn yr un ffordd.



Gwybodaeth — gwneud systemau sy'n gweithio'n well.

Mae pob awdurdod lleol yn gwneud yn siŵr bod gan bobl wybodaeth, cyngor a chymorth yn barod, ond maen nhw'n defnyddio ffyrdd gwahanol o wneud hyn ar draws Cymru.

Mae'r Ddeddf newydd yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod eu systemau gwybodaeth a chymorth yn cyflawni'r canlyniadau a'r safonau a fydd yn y Cod Ymarfer.

Bydd y Cod Ymarfer yn manylu ar sut dylai'r systemau newydd:

- ddweud wrth bobl sut gallan nhw gael yr help sydd ei angen arnyn nhw;
- bod yn rhywbeth y mae pawb yn gallu ei ddefnyddio;
- bod â staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n fedrus;
- gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol;
- gweithio gyda sefydliadau eraill fel bod modd rhannu gwybodaeth yn y ffyrdd iawn;
- bod yn rhywle y mae pobl yn gallu mynd iddo os ydyn nhw'n pryderu ynglŷn â'u hunain neu ynglŷn â rhywun arall;
- cofnodi asesiadau a gwybodaeth bersonol mewn ffyrdd diogel; a
- chofnodi'r cynllunio a chofnodi pa mor dda y mae cymorth yn cael ei roi.

Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

A fydddech chiystal ag ateb y cwestiynau isod ac anfon eich atebion i:

sswbimplementation@cymru.gsi.gov.uk
neu:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol
Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

erbyn 2 Chwefror 2015



Cwestiynau:

Ydych chi'n meddwl bod y Cod Ymarfer a'r rheolau newydd rydyn ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 2 y Ddeddf yn syniad da?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi gadael rhywbeth pwysig allan wrth wneud y cynlluniau yma?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Sylw:

Sylw:

